Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Noddir gan **Llywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

# Canllaw i sefydlu'n dda

**gofalcymdeithasol.cymru**



# Cydnabyddiaethau

Diolch i aelodau o'r rhwydwaith Datblygu'r Gweithlu Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar am eu harweiniad a'u sylwadau gwerthfawr.

# Manylion Cyswllt

Gofal Cymdeithasol Cymru
South Gate House
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 0300 3033 444
Ffacs: 029 2038 4764
Minicom: 029 2078 0680
E-bost: gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru

Gofalcymdeithasol.cymru

Cyhoeddwyd yn wreiddiol gan Cyngor Gofal  Cymru (2010) (Diweddarwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru 2017)
ISBN: 978-1-909867-93-2

© 2017 Gofal Cymdeithasol Cymru

Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng heb ganiatâd ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw. Dylai ymholiadau am atgynhyrchu y tu hwnt i'r hyn a ganiateir yn benodol gan y gyfraith gael eu hanfon at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a roddir uchod.

## Fformatau eraill

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn print bras neu fformatau eraill.

# Cyflwyniad

Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru ac mae'n gyfrifol am hyrwyddo a sicrhau safonau uchel ar draws y gweithlu blynyddoedd cynnar a gofal cymdeithasol. Nod Gofal Cymdeithasol Cymru yw sicrhau bod gan y gweithlu yng Nghymru'r sgiliau a'r cymwysterau cywir i weithio i safonau proffesiynol uchel a'u bod yn gallu darparu gwasanaethau o ansawdd uchel. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn annog y sector i sicrhau bod proses sefydlu yn cael ei reoli yn ofalus ac yn flaenoriaeth i bawb sy'n darparu gofal plant. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru, fel darparwyr gofal plant rhagorol, yn cydnabod hefyd bod ansawdd darpariaeth yn dibynnu ar sicrhau bod gan ymarferwyr broses sefydlu drylwyr, gynhwysfawr a threfnus. Deallwn hefyd y gall hyn fod yn her, a bod galw am arweiniad a chyfeiriad ar brydiau. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi ymateb i'r galw hynny drwy gynhyrchu'r llyfryn hwn.

Mae'r canllaw hwn yn ategu'r llyfrynnau eraill a gynhyrchwyd gan GofalCymdeithasol Cymru ar gyfer y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Canllaw i recriwtio'n dda
- Canllaw i oruchwylio ac arfarnu'n dda
- Egwyddorion Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ar gyfer gweithlu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru
- Fframwaith sefydlu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant i Gymru



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **3** |
| **Sefydlu** | **5** |
| **Sgiliau Hanfodol Cymru** | **5** |
| **Pwysigrwydd rhaglen sefydlu effeithiol** | **6** |
| **Deall y sector** | **6** |
| **Cysylltiadau rhwng sefydlu a hyfforddiant** | **7** |
| **Y diwrnod cyntaf** | **8** |
| **Prif feysydd dysgu yn ystod y cyfnod sefydlu** | **9** |
| **Beth nesaf?** | **14** |
| **Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)** | **14** |
| **Atodiad 1 – Egwyddorion a gwerthoedd** | **14** |
| **Atodiad 2 – Geirfa** | **16** |
| **Adnoddau** | **16** |

# Sefydlu

Sefydlu yw'r elfen ddysgu gyntaf sy'n wynebu'r ymarferydd wrth ymuno â'r gweithlu ac mae'n hanfodol eich bod chi fel cyflogwr yn trefnu'r gefnogaeth briodol.

Mae tystiolaeth yn dangos bod proses sefydlu drefnus, ynghyd â rhaglenni ar gyfer datblygiad proffesiynol, yn cyfrannu'n fawr at gadw staff. Gall rheolwyr ddefnyddio'r llyfryn hwn i amlygu ymarfer da a meysydd a gellir ei trafod wrth sefydlu.

# Sgiliau Hanfodol Cymru

Gall y broses sefydlu ddangos bod angen cymorth ychwanegol ar yr ymarferydd er mwyn sicrhau fod ganddo y lefelau iaith, llythrennedd a rhifedd y tybia'r rheolwr sy'n angenrheidiol er mwyn gwneud ei waith yn iawn. Mae'r maes gwaith hwn yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac mae sawl cynllun ar gael er mwyn darparu cymorth a gwybodaeth i'ch gweithiwr cyflogedig.

Mae cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru yn cael eu cyflwyno er mwyn sicrhau bod pawb yng Nghymru â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt. Mae Sgiliau Hanfodol Cymru yn disodli'r sgiliau sylfaenol ac allweddol. Y Sgiliau Hanfodol yw'r sgiliau y bydd eich ymarferydd eu hangen. Os nad yw ymarferwr yn gallu darllen, ysgrifennu a chyfathrebu a defnyddio Technoleg Gwybodaeth, bydd yn ei chael hi'n anoddach llwyddo yn ei waith.

## Ffeithiau am sefydlu

Mae angen i bob cyflogwr ddatblygu proses sefydlu gadarn, os yw'n fusnes preifat, yn perthyn i'r sector cyhoeddus, yn gorff gwirfoddol neu'n elusen gofrestredig:

- Mae'r broses sefydlu'n hanfodol i bob ymarferydd, er mwyn ei helpu i ddeall pa mor bwysig yw ei rôl wrth gefnogi plant yn ystod eu blynyddoedd ffurfiannol.
- Mae sefydlu hefyd yn hanfodol er mwyn helpu ymarferydd i ddeall ac amgyffred ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau.
- Gall proses sefydlu drefnus a thrylwyr, ynghyd â rhaglenni datblygiad parhaus, gyfrannu at gadw ymarferwyr.
- Mae cynllunio proses sefydlu eich ymarferydd yn hanfodol os ydych chi am i'ch polisïau a'ch gweithdrefnau gael eu gweithredu a'u hymarfer yn gyson.
- Gall sefydlu gyfoethogi'r gwaith o reoli perfformiad.

# Pwysigrwydd rhaglen sefydlu effeithiol

Heb raglen sefydlu effeithiol, efallai na fydd ymarferydd yn cael y cyfle i lwyr ddeall y sefydliad lle mae'n gweithio na'i rôl o fewn y sefydliad. Gall hyn arwain at:

- integreiddio gwael i'r tîm;
- morâl isel, yn enwedig i'r ymarferydd;
- diffyg cynhyrchiant; ac
- methu gweithio i'w lawn botensial.

Bydd proses sefydlu gadarn yn sicrhau bod:

- plant yn cael eu hamddiffyn yn well rhag niwed posibl;
- tîm yr ymarferydd yn cael ei amddiffyn rhag effeithiau perfformiad gwael;
- yr ymarferwyr yn integreiddio'n well i'r tîm;
- yr ymarferwyr yn cael eu cefnogi'n well; ac
- cyflogwyr yn fwy tebygol o gadw'r bobl orau ar gyfer y gwaith.

# Deall y sector

Er mwyn sicrhau gweithdrefnau sefydlu diogel, dibynadwy, effeithlon a thrylwyr, mae angen mwy na darparwyr sy'n gwybod llawer am eu cyfrifoldebau fel cyflogwyr.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cael gwybodaeth bellach am weithgarwch y sector a datblygiadau diweddar a chyfredol, mae'n werth mynd i wefan Gofal Cymdeithasol Cymru a darllen yr adroddiadau ar yr ymchwil sydd wedi'i gynnal yn y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant.



# Cysylltiadau rhwng sefydlu a hyfforddiant

**Mae sefydlu yn gallu:**

- cael ei ddefnyddio i nodi anghenion dysgu a sgiliau ymarferydd;
- cynorthwyo i ddatblygu cynllun datblygu unigol i ymarferydd; ac
- cynorthwyo i nodi a blaenoriaethu dysgu parhaus.

## Dysgu wedi'i gynllunio

Mae pobl yn dysgu mewn sawl ffordd. Mae defnyddio amrywiaeth o ddulliau gydol y broses sefydlu yn arfer da. Gallant gynnwys:

- mentora gan gydweithiwr mwy profiadol;
- dysgu o bell;
- e-ddysgu;
- darllen dan arweiniad;
- defnydd trefnus o arolygiaeth;
- cyrsiau a addysgir; ac
- cysgodi.

Dylai'r broses sefydlu hefyd gael ei chyflwyno fesul tamaid yn hytrach na gorlwytho'r ymarferydd newydd gyda gormod o wybodaeth ar unwaith.

## Cefnogi'r broses ddysgu

Bydd angen i'r sawl sy'n gyfrifol am sefydlu ofalu bod pob ymarferydd yn cael:

- digon o amser;
- anogaeth;
- cefnogaeth; ac
- ei oruchwylio'n briodol a rheolaidd.

**Pwy sydd angen rhaglen sefydlu?**

Mae angen rhaglen sefydlu ar bob ymarferydd, boed yn rhan¬amser neu'n llawn amser. Dylai'r rhaglen fod yn ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion pawb gan gynnwys pobl sy'n dychwelyd i waith ar ôl cymryd seibiant gyrfa, ar ôl absenoldeb hirdymor, ar ôl absenoldeb mamolaeth/tadolaeth neu hyfforddeion a phrentisiaid.

# Y diwrnod cyntaf

Agwedd bwysicaf oll y diwrnod cyntaf yw croesawu a neilltuo amser ar gyfer yr ymarferydd. Os oes cyfle gennych chi, defnyddiwch system 'cyfeillio' lle mae gweithiwr cyflogedig arall yn cael ei neilltuo i ofalu am y person newydd. Gall helpu'r ddau i fagu hyder.

**Dylai diwrnod cyntaf da gynnwys pob un o'r canlynol:**

- croeso cynnes i'r ymarferydd;
- cyflwyniadau i gydweithwyr, teuluoedd a phlant;
- cwblhau'r gwaith papur a dogfennau angenrheidiol gan gynnwys:
    - polisïau a gweithdrefnau craidd e.e. diogelu plant, cyfrinachedd
    - dogfennau adnabod e.e. tystysgrif geni, pasbort, trwydded yrru; ac
    - manylion adnoddau dynol e.e. manylion perthynas agosaf, manylion banc i'r gyflogres, tystysgrifau cymwysterau a gwaith papur arall sy'n ofynnol gan arolygiaeth gofal a gwasanaethau cymdeithasol cymru (AGGCC).
- gwybodaeth iechyd a diogelwch sylfaenol e.e. mynediad i'r adeilad, gofynion arwyddo i mewn ac allan;
- gwybodaeth am hyd unrhyw gyfnod sefydlu ffurfiol a gofynion prawf e.e. cyfnod prawf chwe mis;
- trefniadau rheoli llinell;
- cyfarwyddo â'r amgylchedd gwaith e.e. toiledau, ystafell staff
- dogfennau ac arferion y sefydliad e.e. copi o'r llawlyfr staff, strwythur y staff, côd gwisg ac ati; ac
- gwybodaeth am reoliadau a safonau e.e. Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Mae'n arfer da darparu cynllun a rhestr wirio ar gyfer y broses sefydlu er mwyn gofalu bod sylw'n cael ei roi i bob un o'r meysydd uchod. Gall yr ymarferydd a'r sawl sy'n gyfrifol am y sefydlu arwyddo hwn a'i gadw yn ffeil personél yr ymarferydd.

# Prif feysydd dysgu yn ystod y cyfnod sefydlu

Ystyr egwyddorion a gwerthoedd yw y prif gredoau sydd gennym am blant a'u teuluoedd. Mae'r credoau hyn yn llywio'r ffordd rydym yn gweithio gyda phlant ac yn sylfaen bwysig i'n gwaith.

Mae'r meysydd dysgu a restrir isod yn gysylltiedig â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGC) Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (CCLD) a'r Saith Nod Craidd (gweler Atodiad 1 ar dudalen 15).

## 1. Deall yr egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n hanfodol ar gyfer gweithio gyda phlant yng Nghymru

**Crynodeb**

Ystyr egwyddorion a gwerthoedd yw y prif gredoau sydd gennym am blant a'u teuluoedd. Mae'r credoau hyn yn llywio'r ffordd rydym yn gweithio gyda phlant ac yn sylfaen bwysig i'n gwaith.

Mae'r egwyddorion a'r gwerthoedd hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd hawliau plant ac o wrando ar yr hyn sydd gan blant i'w ddweud. Gellir gweld yr egwyddorion a'r gwerthoedd hyn yn llawn yn Atodiad 1 ar dudalen 15.

**Arweiniad**

Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn gellir rhoi sylw i'r meysydd canlynol:

- egwyddorion a gwerthoedd;
- cyfrinachedd;
- dulliau sy'n canolbwyntio ar unigolion; ac
- cydraddoldeb a chynhwysiant ar waith mewn ymarfer.

## 2. Deall hawliau plant

**Crynodeb**

Mae'r canlyniad hwn yn ymwneud â hawliau'r plentyn neu'r person ifanc, fel y caiff ei ei fynegi yng Nghonfensiwn Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC). Disgwylir i ymarferydd hyrwyddo'r hawliau hyn ym mhob agwedd ar ei waith gyda plant, gan gynnwys gweithio gyda plant i godi eu hymwybyddiaeth o'u hawliau eu hunain a'u helpu i fynegi eu barn.

**Arweiniad**

Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn gellir rhoi sylw i'r meysydd canlynol:

- deall hawliau a pharch;
- yr hawl i hunanbenderfyniad;
- yr hawl i chwarae;
- yr hawl i addysg a dysg; ac
- yr hawl i fod yn ddiogel.

## 3. Deall eich rôl yn y gweithlu plant a'r blynyddoedd cynnar

**Crynodeb**

Mae'r canlyniad hwn yn ymwneud â sicrhau bod yr ymarferydd yn deall ei rôl a'i gyfrifoldebau mewn perthynas â'r plant y mae'n gweithio gyda hwy â'r gweithlu plant a'r blynyddoedd cynnar ehangach. Dylai'r ymarferydd ddeall i bwy mae'n atebol a chyfyngiadau ei gyfrifoldeb.

**Arweiniad**

Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn gellir rhoi sylw i'r meysydd canlynol:

- eich tasgau dydd i ddydd a'ch cyfrifoldebau;
- pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth;
- y gwahanol fathau o sefydliadau, asiantaethau a gweithwyr unigol sydd oll yn rhan o'r gweithlu plant a'r blynyddoedd cynnar;
- cyfrifoldebau cyfreithiol a sefydliadol ymarferwyr; ac
- amcanion y gweithle..

## 4. Deall Iechyd a diogelwch

**Crynodeb**

Mae gofyn i ymarferydd ddangos ei fod wedi creu amgylchedd diogel, priodol i oedran a galluoedd datblygiadol y plant yn ei ofal, gan gymryd camau i gefnogi iechyd corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol a lles y plant. Mae hyn yn golygu bod ganddo wybodaeth lawn am iechyd y plentyn yn ei ofal a'i fod yn deall unrhyw broblemau sy'n ymwneud â'i iechyd. Mae'n hynod bwysig fod yr ymarferydd yn gallu deall y cyfreithiau iechyd a diogelwch a sut maen nhw'n berthnasol i'w waith gyda phlant a phobl ifanc.

**Arweiniad**

Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn gellir rhoi sylw i'r meysydd canlynol:

- hperyglon a risgiau
- iechyd a lles
- symud a chario
- diogelwch tân
- cymorth cyntaf brys
- atal a rheoli haint
- gweithdrefnau meddyginiaeth a gofal iechyd; ac
- diogelwch.



## 5. Deall pwysigrwydd gwrando a chyfathrebu

**Crynodeb**

Mae gwrando ar blant yn un o'r sgiliau pwysicaf. Bydd gofyn i ymarferydd ddeall a gallu dangos cyfathrebu effeithiol.

**Arweiniad**

Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn gellir rhoi sylw i'r meysydd canlynol:

- ymgysylltu â phlant
- gwrando ar blant
- cyfathrebu â phlant
- cyfathrebu ag unigolion eraill
- cadw cofnodion; ac
- cwynion a chanmoliaeth.

## 6. Deall datblygiad ac ymddygiad plant

**Crynodeb**

Er mwyn bod yn ymarferydd effeithiol, mae'n bwysig bod gan ymarferydd ddealltwriaeth eang o ddatblygiad corfforol, emosiynol, cymdeithasol a deallusol plentyn a dealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng twf, oedran cronolegol a chynnydd datblygiadol disgwyliedig.

**Arweiniad**

Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn gellir rhoi sylw i'r meysydd canlynol:

- datblygiad y plentyn neu'r person ifanc
- ymddygiad
- cyfnodau pontio
- chwarae; ac
- potensial addysgol.

## 7. Deall y pwysigrwydd o ddiogelu plant rhag niwed

**Crynodeb**

Rhaid i ymarferydd blynyddoedd cynnar wybod y cyfreithiau, y polisïau gwaith a'r gweithdrefnau sydd wedi'u cynllunio i amddiffyn plant a'u diogelu rhag niwed. Rhaid iddo allu adnabod arwyddion o gam-drin a deall yn glir ei gyfrifioldebau o ran amddiffyn plant o dan y gyfraith, ynghyd â'r polisïau a'r gweithdrefnau diogelu sy'n gysylltiedig a'i weithle.

**Arweiniad**

Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn gellir rhoi sylw i'r meysydd canlynol:

- diogelwch a diogelu; ac
- ymarfer diogel.

## 8. Deall sut i ddatblygu eich hun a'ch sgiliau

**Crynodeb**

Bydd angen i ymarferydd blynyddoedd cynnar wybod pa gefnogaeth sydd ar gael i'w helpu i ddatblygu o fewn ei rôl ynghyd â rôl ei oruchwyliwr. Bydd hefyd angen iddo wybod ble i gael gwybodaeth a deall ei fod yn gyfrifol am ddysgu mwy ac ymarfer y sgiliau angenrheidiol er mwyn gwneud y gwaith yn effeithiol.

**Arweiniad**

Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn gellir rhoi sylw i'r meysydd canlynol:

- datblygu sgiliau a gwybodaeth; ac
- cefnogi a goruchwylio.

# Beth nesaf?

Ar ôl cwblhau proses sefydlu eich gweithiwr cyflogedig, dylai'r ymarferydd blynyddoedd cynnar allu dangos bod ganddo'r sgiliau i weithio'n ddiogel, yn effeithlon ac yn effeithiol gyda phlant a'u cynhalwyr. Wrth symud ymlaen, gall y cyflogwr annog a sicrhau bod ymarferwyr yn ymgymryd â datblygiad Proffesiynol Parhaus i gynnal a gloywi eu sgiliau.

# Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

Mae DPP yn cyfeirio at ddatblygiad wedi'i gynllunio a pharhaus o wybodaeth a sgiliau drwy weithio i sicrhau bod arferion da a gwasanaethau o ansawdd yn cael eu datblygu. Mae'n cyfrannu at ddatblygiad personol ac yn y gwaith sy'n galluogi i ymarferwyr wireddu eu potensial.

Mae DPP yn ymwneud â datblygu'n fwriadol y wybodaeth, y sgiliau a'r priodweddau personol sydd eu hangen ar bob ymarferydd i gyflawni ei gyfrifoldebau a'i ddyletswyddau proffesiynol. Mae'n ddull cyfannol o ddysgu sy'n cydnabod profiadau bob dydd fel cyfleoedd dysgu. Hanfod DPP yw sicrhau proffesiynoldeb ym mhopeth, ac mae'n ymrwymiad personol i ddiweddaru gwybodaeth a sgiliau yn barhaus.

# Atodiad 1 – Egwyddorion a gwerthoedd

## Yr egwyddorion

- Lles y plentyn neu'r person ifanc yw'r peth pwysicaf.
- Mae gweithwyr gofal plant yn cyfrannu at ofal, dysgu, datblygiad a diogelwch y plant. Adlewyrchir hyn ym mhob agwedd ar ymarfer a darpariaeth y gwasanaethau.
- Mae gweithwyr gofal plant yn cefnogi rhieni a theuluoedd sy'n bartneriaid yn y dasg o ofalu, addysgu, datblygiad a diogelwch eu plant. Maent yn cydnabod mai teuluoedd a rhieni yw prif gynhalwyr ac addysgwyr y plentyn neu'r person ifanc, ac yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd, y rhai fydd â'r berthynas hiraf â'r plentyn.

## Y gwerthoedd

- Mae anghenion, hawliau a safbwyntiau'r plentyn neu'r person ifanc yn ganolog ymhob ymarfer a darpariaeth.
- Mae unigoliaeth, gwahaniaethau ac amrywiaeth yn cael eu gwerthfawrogi a'u dathlu.
- Mae cyfle cyfartal ac ymarfer gwrth-wahaniaethol yn cael eu hyrwyddo'n frwd.
- Mae iechyd a lles plant yn cael eu hyrwyddo'n frwd.
- Mae anghenion addysgol plant yn cael blaenoriaeth uchel er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu llawn botensial.
- Mae diogelwch personol a chorfforol plant yn cael ei ddiogelu, gan ganiatáu risg a her, fel sy'n briodol i alluoedd y plentyn neu'r person ifanc.

- Cydnabyddir bod hunan-barch a gwydnwch yn hanfodol i ddatblygiad pob plentyn neu berson ifanc.
- Caiff cyfrinachedd a chytundebau am wybodaeth gyfrinachol eu parchu'n briodol oni bai bod diogelwch neu les plentyn neu berson ifanc yn y fantol.
- Mae gwybodaeth broffesiynol, sgiliau a gwerthoedd yn cael eu rhannu'n briodol ermwyn cyfoethogi profiad y plant yn ehangach.
- Mae cynhwysiant cymdeithasol a chynnydd plant yn cael eu hyrwyddo'n frwd yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC).

Mae'r egwyddorion a'r gwerthoedd wedi'u hanelu at ymarferwyr i lywio eu gwaith.

## Y saith nod craidd

Mae'r saith nod craidd ar gyfer plant yng Nghymru wedi eu crynhoi o'r UNCRC. Maen nhw'n sail i bolisïau'r llywodraeth ar gyfer plant yng Nghymru er mwyn sicrhau bod yr UNCRC yn cael ei gymhwyso ar bob lefel. Mae'r saith nod craidd yn canolbwyntio arweithredu hawliau plant, tra bod yr egwyddorion a'r gwerthoedd yn canolbwyntio ar hyn sydd angen i ymarferwyr ei wneud:

Mae'r saith nod craidd yn sicrhau bod plant yn:

- Cael dechrau da i fywyd a'r sylfaen orau bosibl ar gyfer twf a datblygiad yn y dyfodol;
- Cael mynediad at ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysg, yn cynnwys magu sgiliau personol a chymdeithasol hanfodol;
- Cael mwynhau'r iechyd corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posibl - gan gynnwys rhyddid rhag camdriniaeth, erledigaeth a cham-fanteisio;
- Cael mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliant;
- Sicrhau bod plant yn cael gwrandawiad a'u trin gyda pharch a chydnabyddiaeth i'w hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol;
- Cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi lles emosiynol a chorfforol; ac
- Sicrhau nad yw unrhyw blentyn na pherson ifanc dan anfantais oherwydd tlodi.



# Atodiad 2 - Geirfa

| | |
|---|---|
| Galluoedd | Yr ystod o alluoedd naturiol a sgiliau sy'n cael eu dysgu |
| Datblygiad | Proses newid - cynnydd mewn cymhlethdod ac aeddfedrwydd; plant yn magu sgiliau a medrau |
| Yr amgylchedd | Pob agwedd ar yr amgylchedd y tu mewn a'r tu allan yr ydych yn gyfrifol amdanynt |
| Teuluoedd | Yn cynnwys rhieni a chynhalwyr ynghyd ag unigolion dethol sy'n cyfrannu'n sylweddol at les plant unigol ac sydd o bosibl â chyfrifoldeb cyfreithiol |
| Twf | Cynnydd mewn maint – o ran taldra a phwysau |
| Gwydnwch | Y gallu i ymdopi â siomedigaethau cyffredin arferol, teimladau wedi brifo ac ergydion I hyder heb adael iddynt effeithio ar hunan-barch |
| Hunanbenderfyniad | Gwneud eich penderfyniadau eich hun, neu ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan eraill sy'n effeithio arnoch chi |

# Adnoddau

**Llywodraeth Cymru**
www.cymru.gov.uk

**Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW)**
careinspectorate.wales/?skip=1&lang=cy

**Gofal Cymdeithasol Cymru**
Gofalcymdeithasol.cymru

**Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru**
www.walesppa.org

**Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)**
www.ndna.org.uk

**Clybiau Plant Cymru Kids' Club**
www.clybiauplantcymru.org

**Comisiynydd y Gymraeg**
www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg

**Plant yng Nghymru**
www.plantyngnghymru.org.uk

**ACAS**
www.acas.org.uk

**Direct Gov**
www.direct.gov.uk/cy/index.htm

**Canolfan Byd Gwaith**
www.gov.uk/cysylltu-canolfan-byd-gwaith

**Cymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)**
www.pacey.org.uk

**Adran Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru**
gov.wales/topics/educationandskills/?skip=1&lang=cy

**Sgiliau Hanfodol Cymru**
www.cbac.co.uk/qualifications/levels/essential-skills-wales/index.html?language_id=2

**ESTYN**
www.estyn.llyw.cymru/language

**Mudiad Meithrin**
www.meithrin.cymru

**Gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd**
findyourfis.familyandchildcaretrust.org/kb5/findyourfis/home.page

# A guide to recruiting well

**socialcare.wales**

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**